# P-04-600 Deiseb i achub y gwasanaeth meddygon teulu - Cymru

Er mai meddygon teulu sy'n cynnal 90% o'r holl ymgynghoriadau â chleifion y GIG, dim ond 8.39% o gyllideb y GIG yn y DU a gaiff ei ddyrannu iddynt - y ganran isaf erioed. Erbyn 2017, rhagwelir y bydd hyn yn gostwng i 7.29% .

O ganlyniad, mae'r gwasanaeth meddygon teulu yn wynebu argyfwng cynyddol.

Oherwydd llwyth gwaith affwysol ein meddygon teulu, eleni'n unig, bydd yn rhaid i gleifion aros dros wythnos i weld eu meddyg teulu mewn o leiaf 27 miliwn o achosion.

Ac, yn ôl arolwg a gynhaliwyd ym mis Mawrth, mae mwy na thri o bob pump yn awr yn credu bod nifer yr ymgynghoriadau a gaiff meddyg teulu â'i gleifion - hyd at 60 y dydd - yn bygwth safon y gofal a gaiff y claf.

I sicrhau gwasanaeth o safon i bob claf, galwaf ar Brif Weinidog Cymru i godi'r gyfran o gyllideb y GIG a gaiff ei gwario ar y gwasanaeth meddygon teulu yng Nghymru i 11% erbyn 2017.

Byddai'r cynnydd hwn yn galluogi meddygfeydd i sicrhau:

Nad oes yn rhaid aros mor hir am apwyntiadau a bod modd cynnig oriau agor mwy hyblyg

Ymgynghoriadau hirach, yn enwedig i gleifion sydd â chyflyrau tymor hir

Mwy o gyfle i gleifion weld meddyg teulu sy'n eu hadnabod Cynllunio a chydgysylltu gofal yn well, yn enwedig i'r henoed a chleifion ag anghenion cymhleth Manteision a fydd yn gwella'r GIG yn gyffredinol, gan leihau'r baich ar yr ysbytai.

Mae meddygfeydd yn rhan ganolog o gymunedau lleol. Galwaf ar Lywodraeth Cymru i weithredu'n awr i sicrhau bod gan feddygfeydd yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i barhau i ddarparu gofal o'r safon uchel y mae cleifion yn ei haeddu.

**Prif ddeisebydd:** Royal College of General Practitioners

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor**: 7 Hydref 14

**Nifer y llofnodion**: 15,000 llofnod papur a mwy na 500 a’r wefan deiseb wahanol